**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 24 MEDI 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Michael Imperato; Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd).

**Ymddiheuriadau:** Bev Smith (Cadeirydd); Frances Duffy; Andrew Blackmore

**Amser Dechrau: 10:30**
**Amser Gorffen: 11:50**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Dim

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i bawb am fynychu'r hyfforddiant Adnoddau Dynol cyn i'r cyfarfod ddechrau a dywedodd y bydd y Prif Weithredwr yn arwain y camau gweithredu o'r cyfarfod.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Awst 2025**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Awst 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**CAM GWEITHREDU: ychwanegu dyddiadau at y cofnod camau gweithredu**

**4. Materion sy'n Codi**

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol hefyd:

4.2. **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 19 Awst 2025 a 17 Medi 2025.

4.3. **(Mater 2)** Mae gwaith ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau gyda chymorth gan GW. Disgwylir i gyfarfod â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gael ei gynnal cyn cyfarfod mis Hydref a bydd papur wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Hydref.

4.4. **(Mater 3)** Gwnaed diwygiadau i'r cynllun ymchwil a disgwylir i elfen y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) o'r cynllun ymchwil gael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y BRhE. Cyflwynir cynllun terfynol i gyfarfod y bwrdd ym mis Hydref i'w gymeradwyo'n derfynol.

4.5. **(Mater 4)** Mae gwaith ar y Cynllun Corfforaethol yn parhau a bydd Cadeiryddion Pwyllgorau yn derbyn adrannau sy'n berthnasol i'w meysydd er mwyn rhoi adborth.

4.6. **(Mater 5)** Recriwtio –
Cafwyd 11 o geisiadau ar gyfer rôl Cadeirydd y Comisiwn. Bydd y panel yn llunio rhestr fer yn ystod yr wythnos i ddod.

Mae'r Comisiwn ar fin recriwtio rôl Cymorth Tîm ac aseswyd bod y Gymraeg yn 'hanfodol' ar ei chyfer.

Mae'r ffurflen dadansoddi swydd ar gyfer yr Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid wedi cael ei chwblhau'n derfynol a bydd bellach yn cael ei hystyried gan banel Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS). Lluniwyd y rôl i fod ar radd Uwch-swyddog Gweithredol ac fe'i hysbysebir pan fydd y radd wedi'i chadarnhau. Disgwylir i ddeiliad y swydd ddechrau rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Mae'r Comisiwn wedi llwyddo i benodi Uwch Reolwr Etholiadol a fydd yn ymuno fel cyflogai uniongyrchol ar benodiad amser llawn tan 31 Mai 2027.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Medi 2025 gan Gadeirydd y BRhE ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 3 Hydref.

5.3. **Nodwyd** bod yr adroddiad sicrwydd cyntaf gan MIAA wedi cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd y rheolwr prosiect yn paratoi ymateb cofnodedig i'r argymhellion.

5.4. **Nodwyd** yr adroddiad ar brif bwyntiau'r prosiect, gan gydnabod bod y risg wedi'i hasesu'n uchel ar hyn o bryd am dri rheswm:

- Mae 3 System Rheoli Etholiadol wahanol y mae angen eu mewnbynnu i'r platfform ac mae angen mwy o sicrwydd. **Nodwyd** y bydd cyfarwyddyd drafft yn cael ei anfon sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu'r set ddata hon.
- Mae angen mwy o sicrwydd ynglŷn â'r darnau o'r Clwb Democratiaeth.
- Mae strategaeth ymgysylltu wedi cael ei pharatoi ac mae'n aros am gael ei chymeradwyo.

5.5. **Nodwyd** bod y cyfarfod terfynol gyda Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi cael ei gynnal ac ni chodwyd unrhyw faterion newydd. Bydd yr holl faterion a godwyd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd a bydd y camau a gymerir yn cael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith.

5.6. **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad ar set o gyfarwyddiadau drafft ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi dod i ben, ac y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yng nghyfarfod y BRhE ym mis Hydref.

5.7. **Nodwyd** bod y gofrestr risgiau strategol ddrafft wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac y bydd y BRhE yn ei hystyried yn ffurfiol yng nghyfarfod mis Hydref.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Medi 2025 gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd ac fe'i **nodwyd**.

6.2. **Nodwyd** bod yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cael ei gyhoeddi ar 23 Medi, a bod blaengopi wedi cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

6.3. **Nodwyd** bod hyn yn dechrau'r ymgynghoriad ar y cynnydd 6.4% arfaethedig i daliadau i aelodau etholedig prif gynghorau, awdurdodau parc cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, a chyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu.

6.4. **Nodwyd** y daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 18 Tachwedd, ac yna y bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Yn dilyn hynny, bydd y penderfyniadau

terfynol ar gyfer y flwyddyn 26-27 yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd eleni.

## 7. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

7.1. Rhoddwyd diweddariad llafar ar gyfer yr eitem hon.

7.2. Nodwyd bod y gofrestr risgiau wedi cael ei harchwilio'n ddwfn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys risgiau'r BRhE a materion yr oedd y Prif Weithredwr yn berchennog risg ar eu cyfer.

7.3. Nodwyd bod y wybodaeth a oedd yn weddill gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chost adnewyddu wedi cael ei derbyn a'i chyflwyno i Archwilio Cymru.

7.4. Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei drefnu rhwng dechrau a chanol mis Hydref yn rhan o'r broses o gymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol.

## 8. Rheoli Risg

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** bod Cofresr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn wedi cael ei hadolygu yn dilyn diweddariadau gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

8.3. **Nodwyd** bod yr adolygiad diwethaf wedi cael ei gynnal gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, a oedd yn cynnwys archwiliad dwfn o risgiau CR1 ac CR3 y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdanynt.

8.4. **Nodwyd** bod sawl newid wedi'u cynnig, yn cynnwys:

- Ehangu risg CR1 i gynnwys yr holl randdeiliaid. Trafodwyd pwy ddylai'r rhanddeiliaid hyn fod.
- Dylai risg CR3 fod â rheolaeth bresennol ychwanegol sy'n ymdrin â chyngor cyfreithiol a dderbyniwyd.
- Dylai risg CR3 gynnwys cam gweithredu lliniarol ychwanegol sy'n nodi y dylid cynnal archwiliad mewnol o gydymffurfio â chyfrifoldebau statudol y Comisiwn yn rhan o'r archwiliad mewnol

Llywodraethu.

8.5. Trafodwyd deddfwriaeth gyflogaeth newydd sydd yn yr arfaeth, y bydd rhywfaint ohoni'n cael ei gweithredu cyn hir, a ph'un a oes angen ei hychwanegu at y gofrestr risgiau.

8.6. Trafodwyd cyfuno risgiau CR7 ac CR8 oherwydd eu bod yn ymwneud â materion TG tebyg.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Medi 2025 gan y Pennaeth Arolygon.

9.2. **Nodwyd** y cafwyd cyngor gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gwneud newidiadau i enwau wardiau etholiadol.

9.3. **Cymeradwywyd** y newidiadau arfaethedig i enwau a gynigiwyd gan gyngor Rhondda Cynon Taf.

9.4. **Cymeradwywyd** y Gorchymyn ar gyfer Rhondda Cynon Taf a bydd yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi – gan ddod i rym ar gyfer etholiadau lleol 2027.

9.5. **Nodwyd** bod y pwyllgor yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar Sir Benfro ac Abertawe. **Nodir** bod Sir Benfro gyda'r gweinidog bellach ac y bydd Abertawe'n cael ei hystyried cyn hir.

9.6. **Nodwyd** y bydd arolygon etholiadol Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg yn cael eu cyhoeddi ar 2 Hydref ac y bydd yr ymgynghoriadau'n parhau tan 12 Tachwedd.

9.7. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad argymhellion terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ar 10 Rhagfyr.

9.8. **Nodwyd** bod arolwg Caerffili wedi cael ei oedi o ganlyniad i'r is-etholiad. Fe'i cyhoeddir ar 27 Hydref a bydd y cyfnod ymgynghori'n parhau tan 7 Rhagfyr. Dyddiad cyfarfod y pwyllgor Arolygon yw 6 Ionawr.

9.9. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad argymhellion terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ym mis Ionawr.

9.10. **Nodwyd** bod Blaenau Gwent yn bwriadu cynnal eu harolwg cymunedol eu hunain.

## 10. Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Medi 2025 gan y Pennaeth Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

10.2. **Cymeradwywyd** yr Arolwg Cymunedol gan y Comisiwn.

## 11. Strategaeth Gyfathrebu Ddrafft

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mai 2025 gan y Swyddog Arolygon.

11.2. **Nodwyd** y bydd cynlluniau ar wahân yn cael eu llunio ar gyfer prosiectau manylach, fel cynllun ar gyfer y platfform gwybodaeth am etholiadau a fydd yn cael ei gyflwyno i'r BRhE yr wythnos nesaf.

11.3. Trafodwyd grid byr ym mhob adran er mwyn i aelodau staff weld yn glir beth sydd ei angen ar gyfer pob arolwg.

11.4. Trafodwyd yr adran ar gydnabyddiaeth ariannol a'r adolygiad a gynhelir y flwyddyn nesaf a ph'un a ddylid cynnwys adran benodol am ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae hyn yn debygol o gael ei gynllun ar wahân ei hun oherwydd bydd y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol yn edrych arno.

11.5. Trafodwyd cyfeirio at ganllawiau STAR ar gyfathrebu ysgrifenedig.

11.6. Trafodwyd y sianeli a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu y telir amdano.

11.7. Trafodwyd cyfeirio ato fel polisi yn hytrach na strategaeth oherwydd ei fod yn fframwaith a fydd yn para am gyfnod hir.

11.8. Trafodwyd llywodraethu a'r hyn y mae angen ei gymeradwyo ar wahân oherwydd bod y BRhE yn gyfrifol amdano yn hytrach na CDFfC.

11.9. Trafodwyd cyfeirio at egwyddorion NOLAN o ran didueddrwydd.

11.10. Trafodwyd defnyddio deallusrwydd artiffisial o fewn deunydd cyfathrebu a'i ystyriaethau moesegol.

11.11. Trafodwyd yr iaith a ddefnyddir wrth sôn am dargedu bylchau o ran y gynulleidfa a gyrhaeddir a ph’un a yw hyn yn cysylltu â’r amcanion cydraddoldeb drafft a’r ymgyrchoedd hysbysebu dilynol.

11.12. Nodwyd y bydd fersiwn wedi’i diweddaru o’r Polisi Cyfathrebu’n cael ei chyflwyno i gyfarfod y Comisiwn.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 13. Unrhyw Fater Arall

13.1. **Nodwyd** y bydd cyfarfod mis Tachwedd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 29 Hydref 2025**